

Rhif: WG19741

Llywodraeth Cymru

Ffurflen Ymateb Ymgynghoriad y Cynllun drafft

Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd

Dyddiad cyhoeddi: 23 Medi 2013

Ymatebion erbyn: 16 Rhagfyr 2013



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dylid darllen y ffurflen ymateb hon ar y cyd â Dogfen Ymgynghoriad y Cynllun drafft a dogfennau cysylltiedig, sy'n rhoi gwybodaeth i'ch helpu i ymateb i'r cwestiynau rydym yn eu holi.

Bydd yr ymatebion y byddwch yn eu rhoi yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu a ddylid mabwysiadu'r Cynllun drafft, gyda neu heb ddiwygiadau, gan gymryd i ystyriaeth yr ymatebion i'r gwahanol asesiadau.

Gellir cyflwyno ymatebion:

- **Ar-lein:** drwy fynd i www.wales.gov.uk/consultations neu www.m4newport.com
- **Drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb hon:** gallwch ei llenwi a'i hanfon at *Freepost M4 Consultation*

I sicrhau y bydd eich ymateb yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ymgynghori hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi adrannau A a B isod a throsodd.

Er hwylustod i chi, mae'r nodau ar gyfer Coridor yr M4, sy'n rhoi fframwaith ar gyfer asesu opsiynau, yn cael eu rhestru ar dudalennau datodadwy 4 a 5 y ffurflen ymateb hon.

Os bydd angen mwy o le arnoch i wneud sylwadau, defnyddiwch y tudalennau ychwanegol ar gefn y ffurflen hon i gwblhau eich ymateb.

A) Gwybodaeth amdanoch chi

Enw cyntaf							Cyfenw		
Cod post									
Sefydliad *									
Oedran (ticiwch)	o dan 21		21-40		41 - 60		dros 60		
Rhyw									
Cenedligrwydd									

* Rhowch hyn dim ond os yw eich ymateb yn cynrychioli safbwyntiau sefydliad yn hytrach nag unigolyn.

Diogelu Data

Bydd cyflwyniadau i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio mewn adroddiad a fydd ar gael i'r cyhoedd. Fel arfer, cyhoeddir enw a chod post y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol.

Os nad ydych eisiau i'ch enw gael ei gyhoeddi, ticiwch yma. Wedyn byddwn yn ei guddio.

Darllenwch y wybodaeth ar Ddiogelu Data ar dudalen 6 y Ddogfen Ymgynghori.

B) Eich arferion teithio

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y ffordd rydych yn defnyddio traffordd yr M4 o amgylch Casnewydd?

(dewiswch un ateb yn unig)

Dyddiol

Wythnosol

Achlysurol

Byth

Yn gyffredinol, sut byddech chi'n disgrifio diben y teithiau hyn orau?

(dewiswch un ateb yn unig)

Teithio i'r gwaith ac yn ôl yn bennaf

Busnes yn bennaf

Hamdden yn bennaf

Cael mynediad i wasanaethau yn bennaf, e.e. ysgolion, colegau, gofal iechyd ac ati.

Os ydych eisiau i ni eich diweddarau ynghylch unrhyw gynnydd yn gysylltiedig â chanlyniadau'r ymgynghoriad, rhowch eich manylion cyswllt yma:

Cyfeiriad	
E-bost	

Mae crynodeb o'r nodau a'r problemau yn ymwneud â Choridor yr M4 o amgylch Casnewydd wedi'i restru ar dudalennau symudadwy 4 a 5 y ffurflen ymateb hon.

Cwestiwn 1. Rhowch unrhyw sylwadau ynghylch y **Cynllun drafft (y Llwybr Du a'i fesurau ategol)** yma. Yn arbennig, i ba raddau ydych chi'n meddwl y bydd yn mynd i'r afael â'r problemau a chyflawni'r nodau ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd?

Cwestiwn 2. Rhowch unrhyw sylwadau ynghylch y **Llwybr Coch a'i fesurau ategol** (sef dewis amgen rhesymol i'r Cynllun drafft) yma. Yn arbennig, i ba raddau ydych chi'n meddwl y bydd yn mynd i'r afael â'r problemau a chyflawni'r nodau ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd?

Cwestiwn 3. Rhowch unrhyw sylwadau ynghylch y **Llwybr Porffor a'i fesurau ategol** (sef dewis amgen rhesymol i'r Cynllun drafft) yma. Yn arbennig, i ba raddau ydych chi'n meddwl y bydd yn mynd i'r afael â'r problemau a chyflawni'r nodau ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd?

Cwestiwn 4. Rhowch unrhyw sylwadau ynghylch y ‘senario gwneud cyn lleied â phosibl’ yma. Yn arbennig, i ba raddau ydych chi’n meddwl y bydd yn mynd i’r afael â’r problemau a chyflawni’r nodau ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd?

Cwestiwn 5. Rhowch unrhyw sylwadau ynghylch yr **Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)** sy’n gysylltiedig â’r Cynllun drafft yma.

Cwestiwn 6. Rhowch unrhyw sylwadau ynghylch yr **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)** sy’n gysylltiedig â’r Cynllun drafft yma.

Nodau ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd

Datblygwyd y nodau a restrir isod gyda'r bwriad o leddfu'r llif yng Nghoridor yr M4 o amgylch Casnewydd. Fel rhan o Ymgynghoriad M4 CEM, gofynnwyd i ymatebwyr flaenoriaethu hyd at bedwar nod allan o restr lawn o 15. Nodau 1, 4, 5 a 7 a ddangosir mewn llythrennau italig trwm a ddewiswyd amlaf¹.

- 1. Teithio mwy diogel, hawdd a dibynadwy o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn Ne Cymru.***
- Cysylltiadau trafniadaeth gwell o fewn Cymru ac i Loegr, Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop ar gyfer pob modd ar rwydwaith trafniadaeth rhyngwladol.
- Defnydd mwy effeithiol ac integredig o ddewisiadau amgen i'r M4, gan gynnwys rhannau eraill o'r rwydwaith trafniadaeth a dulliau eraill o drafnidiaeth ar gyfer teithiau lleol a strategol o amgylch Casnewydd.
- 4. Y defnydd gorau posibl o'r M4 bresennol, y rhwydwaith ffyrdd lleol a rhwydweithiau trafniadaeth eraill.***
- 5. Amseroedd teithio mwy dibynadwy ar hyd Coridor yr M4.***
- Lefel uwch o ddewis ar gyfer pawb sy'n teithio o fewn y coridor trafniadaeth gan ddefnyddio pob dull rhwng Magwyr a Chas-bach, yn gymesur â'r galw am ddewisiadau amgen.
- 7. Gwella diogelwch ar Goridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.***
- Gwella ansawdd aer mewn ardaloedd cyfagos i'r M4 o amgylch Casnewydd.
- Llai o aflonyddwch i bobl oherwydd lefelau uchel o sŵn, gan bob math o drafnidiaeth a thraffig o fewn Coridor yr M4.
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan bob cerbyd a/neu berson fesul cilomedr.
- Profiad teithio gwell i Dde Cymru ar hyd Coridor yr M4.
- Cael M4 sy'n ddeniadol ar gyfer teithiau strategol ond llai deniadol i draffig lleol.
- Gwella rheolaeth traffig yng Nghasnewydd a'r cylch ar Goridor yr M4.
- Mynediad haws i wasanaethau allweddol lleol a chanolfannau preswyl a masnachol.
- Newid diwylliannol mewn ymddygiad teithio tuag at ddewisiadau mwy cynaliadwy.

¹ Gweler Adran 3 Dogfen Ymgynghori'r Cynllun drafft am ragor o fanylion.

Problemau yn Ymwneud â Thrafnidiaeth

Mae rhanddeiliaid a phobl yng Nghasnewydd a'r cylch wedi nodi'r problemau a restrir isod. Fel rhan o Ymgynghoriad M4 CEM, gofynnwyd i ymatebwyr flaenoriaethu hyd at bedair problem allan o'r rhestr lawn. Problemau 1, 5, 7 a 9 a ddangosir mewn llythrennau italg trwm yw'r rhai a ddewiswyd amlaf gan y sawl a ymatebodd i'r Ymgynghoriad M4 CEM².

Capasiti

- 1. Mae mwy o draffig yn defnyddio'r M4 o amgylch Casnewydd nag y cafodd ei chynllunio i ddarparu ar ei gyfer, gan arwain at dagfeydd rheolaidd ar adegau prysur dros gyfnodau estynedig.**
2. Mae'r M4 o amgylch Casnewydd yn cael ei ddefnyddio fel cysylltiad cyfleus i groesi'i dref ar gyfer traffig lleol, oherwydd diffyg capasiti ffyrdd lleol.
3. Nid yw cerbydau nwyddau trwm yn gweithredu yn effeithlon ar y draffordd o amgylch Casnewydd.
4. Nid oes digon o gapasiti drwy rai o'r cyffyrdd (e.e. mae capasiti tair lôn yn gostwng i gapasiti dwy lôn).
- 5. Mae twneli Bryn-glas, sydd â dwy lôn, yn cyfyngu'n fawr ar gapasiti.**
6. Nid yw'r M4 yn gallu ymdopi â mwy o draffig o ddatblygiadau newydd.

Cydnherthedd

- 7. Mae anawsterau o ran cynnal llif traffig digonol ar yr M4 a llwybrau priffyrdd amgen ar adegau o darfu dros dro; nid yw llwybrau amgen yn gallu ymdopi â thraffig yr M4.**
8. Mae'r system drafnidiaeth ffyrdd a rheilffordd yng nghoridor yr M4 ac o'i amgylch mewn perygl cynyddol o darfu oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol.
- 9. Pan fydd problemau ar yr M4, mae tarfu a thagfeydd difrifol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a rhanbarthol.**
10. Mae angen gwaith cynnal a chadw sylweddol hanfodol ar yr M4 o fewn y 5-10 mlynedd nesaf; bydd hyn yn golygu cyfyngiadau maith ar lonydd a chyflymder, a thrwy hynny bydd problemau tagfeydd yn cynyddu.
11. Nid oes digon o wybodaeth ar gael o flaen llaw i hysbysu penderfyniadau teithio pan fydd problem ar yr M4.

Diogelwch

12. Mae'r cyfraddau damweiniau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer traffyrdd y DU³.
13. Mae'r M4 bresennol o safon annigonol o gymharu â safonau dylunio modern.
14. Mae ymddygiad gyrru rhai pobl yn arwain at fwy o ddamweiniau (e.e. goryrru, mynnu'r holl lôn, gyrwyr heb drwydded).

Datblygu Cynaliadwy

15. Mae diffyg dewisiadau trafndiaeth integredig cynaliadwy digonol ar gyfer defnyddwyr presennol y ffyrdd.
16. Mae sŵn traffig o'r draffordd ac ansawdd yr aer yn broblem i drigolion lleol mewn rhai ardaloedd.
17. Mae'r rhwydwaith trafndiaeth presennol yn gweithredu fel cyfyngiad ar dwf economaidd ac yn effeithio'n andwyol ar yr economi ar hyn o bryd.

² Gweler Adran 3 Dogfen Ymgynghori'r Cynllun drafft am ragor o fanylion

³ Cyflwynwyd y system Amrywio Cyflymder (VSL) ym mis Mehefin 2011 rhwng Cyffyrdd 24 a 28, er mwyn gwella amodau diogelwch a llif y traffig yn y tymor byr. Mae'r flwyddyn gyntaf o weithredu wedi dangos gostyngiad mewn damweiniau, a'r gobaith yw y bydd cofnodion yn y blynyddoedd dilynol yn cadarnhau y duedd hon.

Cwestiwn 7. Rhowch unrhyw sylwadau ynghylch yr **Aseiad o'r Effaith ar Iechyd** sy'n gysylltiedig â'r Cynllun drafft yma.

Cwestiwn 8. Rhowch unrhyw sylwadau ynghylch yr **Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** sy'n gysylltiedig â'r Cynllun drafft yma.

Cwestiwn 9. Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol yma.

Diolch i chi am eich cyfraniad

